# Adolygiad dilynol: Cau Uned Mân Anafiadau Ysbyty Cwm Cynon Dros Dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4361A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cyflwyniad 4

Amcanion a chwmpas ein gwaith 4

Canfyddiadau allweddol 4

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 9

# Cyflwyniad

1 Ym mis Medi 2021, fe benderfynodd y Bwrdd Iechyd gau'r Uned Mân Anafiadau (UMA) yn Ysbyty Cwm Cynon (YCC) dros dro oherwydd pryderon ynghylch bregusrwydd y gwasanaeth a chydymffurfiaeth o ran hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ailagor yr UMA wedyn, er yn raddol, ym mis Mai 2022.

2 Ym mis Tachwedd 2021, fe benderfynom ni gynnal adolygiad lefel-uchel i archwilio'r materion a oedd yn ymwneud â chau'r UMA yn YCC dros dro. Canfuom y gellid bod wedi osgoi gorfod cau'r UMA pe bai camau gweithredu wedi cael eu cymryd yn gynharach i gryfhau goruchwyliaeth ar yr uned gan reolwyr yn ogystal ag ymdrin â'r pryderon a godwyd yn 2018-19 ynghylch hyfforddiant a chymwysterau staff. Canfuom hefyd fod cau'r UMA wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr ag Adran Achosion Brys a oedd eisoes dan bwysau, ac nad oedd asesiad o'r effaith ar gleifion wedi cael ei gynnal. Er bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd i roi gwybod i randdeiliaid bod yr uned yn cael ei chau dros dro ac i adleoli staff yn effeithiol, canfuom fylchau o ran cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, yn enwedig mewn perthynas â'r niwed posibl i gleifion.

3 Fe wnaethom bedwar argymhelliad ar gyfer gwella, a oedd yn canolbwyntio ar:

- Adolygu trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr ar wasanaethau sy'n gweithredu o bell.
- Gwella goruchwyliaeth ar drefniadau hyfforddi seiliedig-ar-gymhwysedd yn yr UMA ac ar draws y sefydliad ehangach.
- Gwella cyfraddau cydymffurfio ar gyfer arfarniadau o berfformiad.
- Gwella goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

# Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 Amcan ein hadolygiad dilynol fu archwilio a yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a gododd o'n hadolygiad yn 2021.

5 Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion, yn enwedig mewn perthynas â chryfhau goruchwyliaeth gan reolwyr ar wasanaethau sy'n gweithredu o bell, gwella trefniadau hyfforddi seiliedig-ar-gymhwysedd, a chynyddu cyfraddau arfarniadau o berfformiad. Fodd bynnag, mae ganddo waith pellach i'w**

**wneud o hyd mewn perthynas â dysgu'r gwersi sy'n codi o gau'r Uned Mân Anafiadau dros dro a rhoi'r gwersi hynny ar waith.**

7 Caiff y canfyddiadau sy'n ategu ein casgliad ar y cyfan eu crynhoi isod o dan bob argymhelliad:

## Argymhelliad 1 – Adolygu trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr ar wasanaethau sy'n gweithredu o bell

8 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr ar wasanaethau a gaiff eu staffio gan y Bwrdd Iechyd ond sy'n gweithredu o bell i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn ac effeithiol. Fe wnaethom hefyd ystyried a yw canfyddiadau'r adolygiad wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i ddarparu'r sicrwydd gofynnol.

9 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi **cryfhau ei drefniadau ar gyfer darparu goruchwyliaeth gan reolwyr ar wasanaethau sy'n gweithredu o bell, gan gynnwys yr Unedau Mân Anafiadau yn Ysbyty Cwm Cynon ac Ysbyty Cwm Rhondda**.

10 Ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno model gweithredu newydd, sy'n cynnwys Grwpiau Gofal[1], trwy broses newid sefydliadol. Fel rhan o'r broses hon, cafodd yr holl wasanaethau a ddarperir o bell y tu hwnt i dri safle acíwt y Bwrdd Iechyd (Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg) eu hadolygu a'u hymgorffori yn y Grŵp Gofal perthnasol o fewn y strwythur.

11 Mae UMA YCC, ynghyd ag UMA Ysbyty Cwm Rhondda, bellach yn rhan o'r Grŵp Gofal Heb Ei Drefnu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar gwmpas ymarfer a gweithdrefn weithredu safonol eglur ar gyfer ei UMAau, sy'n nodi trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr. Rydym wedi gweld tystiolaeth o'r Grŵp Gofal yn cynnal goruchwyliaeth briodol ar weithgarwch a materion UMAau, gydag adroddiadau rheolaidd o'r UMAau i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Grŵp Gofal.

12 Gan bod yr adolygiad o'r gwasanaethau sy'n gweithredu o bell yn rhan o'r broses newid sefydliadol, adroddwyd ar hyn yn uniongyrchol wrth y Bwrdd yn hytrach na'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Fodd bynnag, ers rhoi'r model gweithredu newydd ar waith, rydym wedi arsylwi ar y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn darparu goruchwyliaeth dda ar ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir gan y Grwpiau Gofal.

13 **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 1 wedi cael ei roi ar waith**.

[1] Ceir cyfanswm o chwe grŵp gofal: Grŵp Gofal Wedi'i Gynllunio; Grŵp Gofal Heb Ei Drefnu; Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd; Grŵp Gofal Diagnosteg, Therapïau ac Arbenigeddau; Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu; a Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

## Argymhelliad 2 - Gwella goruchwyliaeth ar drefniadau hyfforddi seiliedig-ar-gymhwysedd yn yr UMA ac ar draws y sefydliad ehangach

14 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei ofynion hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd (yn yr UMA ac ar draws y sefydliad ehangach) i sicrhau:

- bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i gynorthwyo staff i gwblhau'r holl hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd perthnasol mewn modd amserol;
- bod cymwyseddau y mae gofyn eu hasesu'n cael eu hasesu gan aseswyr cymwys mewn modd amserol;
- bod tystiolaeth o hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd a gwblhawyd gan staff yn cael ei chofnodi'n briodol; a
- bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y timau rheoli perthnasol.

Fe wnaethom hefyd ystyried a gafodd canfyddiadau'r adolygiad eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i ddarparu'r sicrwydd gofynnol.

15 Canfuom fod y **Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella'i drefniadau ar gyfer hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd, gyda threfniadau penodol bellach ar waith i gynorthwyo Ymarferwyr Nyrsio Brys i gwblhau'r hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd perthnasol**.

16 Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi penodol mewn perthynas â hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd, mae'n ymrwymedig i sicrhau bod hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd yn gyfredol ar gyfer yr holl staff perthnasol. Mae hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd rôl-benodol yn cael ei archwilio fel rhan o Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad (PADR) unigolyn. Os adnabyddir bwlch a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau, byddai'r uwch nyrs ar gyfer y maes hwnnw'n amlygu hyn yng nghyfarfod gweithlu'r Grŵp Gofal a byddai ymyriad priodol wedi'i dargedu'n cael ei sefydlu.

17 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Uwch Nyrs amser llawn ar gyfer Addysg Broffesiynol, sydd hefyd yn un o aseswyr cymeradwy Agored Cymru[2]. Mae'r Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Broffesiynol yn gyfrifol am y trefniadau llywodraethu ar gyfer addysg a hyfforddiant nyrsys mewn Adrannau Achosion Brys. Mae pob Ymarferydd Nyrsio Brys[3] wedi'i halinio â goruchwylydd clinigol meddygol ochr yn ochr â'r Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Broffesiynol. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, gan bod yr aseswyr hyn yn brin ledled Cymru. Mae'r Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Broffesiynol yn cefnogi UMA YCC a'r Adran Achosion Brys yn

[2] Darparwr addysg sy'n creu cymwysterau ac unedau â sicrwydd ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol ar draws ystod eang o bynciau yng Nghymru yw Agored Cymru. Mae'n darparu'r Diploma Lefel 7 mewn Rheoli Mân Anafiadau yn Annibynnol, y mae'n ofynnol i bob Ymarferydd Nyrsio Brys ei gwblhau.

[3] Nyrsys cofrestredig sydd wedi cwblhau hyfforddiant pellach mewn rheoli mân anafiadau ac sy'n ymarfer heb oruchwyliaeth meddyg ymgynghorol i weld, trin a rhyddhau cleifion yw Ymarferwyr Nyrsio Brys.

Ysbyty'r Tywysog Siarl ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cynllun i'r Uwch Nyrs ar gyfer Addysg Broffesiynol gefnogi'r Nyrsys Datblygu Ymarfer ar draws Adrannau Achosion Brys eraill ac UMA Ysbyty Cwm Rhondda dros y misoedd nesaf.

18 Mae'n ofynnol i staff a hyfforddwyd yn broffesiynol, megis meddygon neu nyrsys, wneud a chadw tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus perthnasol fel rhan o'u cofrestriad parhaus gyda'u priod gyrff proffesiynol. Fodd bynnag, fel gyda Byrddau Iechyd eraill, nid oes system gyfrifiadurol iddynt gofnodi hyn. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddibynnu ar gofnodion a gaiff eu creu â llaw.

19 O fewn y Grŵp Gofal Heb Ei Drefnu, trafodir cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol mewn cyfarfod Grŵp Gofal deufisol a arweinir gan y Cyfarwyddwyr Nyrsio ar gyfer gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio.

20 Er bod hyn oll yn gadarnhaol, ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau ffurfiol ar y materion hyn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch na'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Byddem yn annog y Bwrdd Iechyd, felly, i ddarparu diweddariad ar y materion hyn ar gyfer y pwyllgor perthnasol ar y cyfle cynharaf posibl i sicrhau ei fod yn cael y sicrwydd angenrheidiol.

21 **Rydym felly'n ystyried bod Argymhelliad 2 wedi cael ei roi ar waith**.

## Argymhelliad 3 – Gwella cyfraddau cydymffurfio ar gyfer arfarniadau o berfformiad

22 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar ystod o gamau gweithredu priodol i wella cyfraddau cydymffurfio ar draws y sefydliad.

23 Canfuom fod **gan y rhan fwyaf o staff o fewn yr UMA arfarniadau perfformiad cyfredol. Fodd bynnag, mae cyfradd gydymffurfio'r Bwrdd Iechyd ar y cyfan ar gyfer Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad, er ei bod yn gwella, yn dal i fod islaw'r lefel darged o 85%**.

24 Mae gan bob aelod o staff ond dau[4] o fewn yr UMA arfarniad cyfredol o berfformiad, sy'n welliant sylweddol ers ein hadolygiad gwreiddiol.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio'i ddull lle mae Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn y cwestiwn, gan gydnabod eu pwysigrwydd i ddatblygiad, perfformiad a llesiant staff. Mae'r dull newydd – a adwaenir fel y broses 'Eich Sgwrs' – hefyd yn gosod pwyslais ar bwysigrwydd gwerthoedd ac ymddygiadau. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld cynnydd yn y gyfradd gydymffurfio ar gyfer Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad, gan gyflawni cyfradd gwblhau o 64.4% ym mis Mai 2024 o'i gymharu â 59.4% ym mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd, fel Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, yn dal i brofi heriau o ran cyrraedd y targed cydymffurfio ar gyfer Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad o 85% ar draws yr holl grwpiau o staff.

[4] Mae un ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd, ac un ar absenoldeb hirdymor.

26 **Rydym felly’n ystyried bod Argymhelliad 3 wedi cael ei roi ar waith**.

## Argymhelliad 4 - Gwella goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a sicrhau bod gwersi’n cael eu dysgu

27 Fe wnaethom ystyried a yw’r Bwrdd Iechyd wedi darparu adroddiad diweddaru ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn amlinellu’r gwersi a ddysgwyd, a chadarnhad o unrhyw ddeilliannau o ganlyniad i’w waith ar asesu niwed posibl i gleifion.

28 Canfuom **er na chafodd unrhyw gleifion niwed, nad yw’r Bwrdd Iechyd wedi cofnodi’r gwersi o gau’r UMA dros dro na’u rhoi ar waith eto**.

29 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau na hysbyswyd ynghylch unrhyw ddigwyddiadau lle cafodd cleifion niwed yn dilyn cau’r UMA dros dro. Fodd bynnag, mae’n cydnabod bod angen gwaith pellach i gofnodi’r gwersi o gau’r UMA dros dro a’u rhoi ar waith. Yn siomedig, ni chynhaliodd y Bwrdd Iechyd ymarfer gwrando a dysgu ar yr adeg y caewyd yr uned dros dro, ac mae tair blynedd wedi mynd heibio bellach. Fodd bynnag, mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal ymarfer gwrando a dysgu o fewn y chwe mis nesaf i ddod â staff a’r gymuned ynghyd i archwilio cyfleoedd i ddysgu o gau’r uned dros dro. Bydd y digwyddiad yn cael ei gefnogi gan Llais Cymru[5], a bydd adroddiad ar y deilliannau’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

30 **Rydym felly’n ystyried bod Argymhelliad 4 yn dal i fynd rhagddo**.

[5] Sefydliad statudol annibynnol sy’n cynrychioli buddiannau cleifion a’r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw Llais Cymru.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau isod.

**Arddangosyn 2: dulliau archwilio**

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cofnodion, agendâu, cylchoedd gorchwyl a phapurau'r Bwrdd a phwyllgorau a grwpiau perthnasol, gan gynnwys y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.<br>• Dogfen hunanasesu a gwblhawyd gan y Bwrdd Iechyd yn nodi'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion blaenorol;<br>• Adroddiadau ar roi'r model gweithredu ar waith;<br>• Offeryn tracio argymhellion archwilio; a<br>• Swydd ddisgrifiadau ar gyfer staff perthnasol |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion canlynol:<br>• Rheolwr Datblygu Ymarfer Uwch ac Ymgynghorol AaGIC; a hefyd<br>• Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.